

Heddlu Dyfed-Powys wedi sicrhau cynnydd da ar gyflawni arbedion ar gyfer cyfnod yr adolygiad cynhwysfawr o wariant.

Heddiw mae Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) wedi cyhoeddi adroddiad ar gynnydd Heddlu Dyfed-Powys i fodloni heriau'r adolygiad cynhwysfawr o wariant 2010.

Yn seiliedig ar y data a ddarparwyd gan yr heddlu, canfu'r HMIC fod:

- Angen i Heddlu Dyfed-Powys arbed £12 miliwn rhwng Mawrth 2011 a Mawrth 2015. Erbyn gwanwyn 2012, roeddynt wedi cynllunio sut i arbed 100% o'r swm hwn.
- Mae'r heddlu yn bwriadu torri cyfanswm nifer ei weithlu (h.y. swyddogion yr heddlu, staff yr heddlu a swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu) o 120 rhwng Mawrth 2010 a Mawrth 2015.
- Bydd 50 o'r rhain yn swyddi plismyn; mae hyn yn golygu y bydd 5% yn llai o swyddogion yn Nyfed-Powys (o gymharu â chyfartaledd lleihad o 10% mewn swyddogion ledled Cymru a Lloegr).
- Erbyn 2015, bydd 73% o'r gweithlu mewn rolau blaen y gad. Mae hyn yn gyffredinol debyg i'r ffigwr cenedlaethol.
- Fodd bynnag, bydd y gyfran o swyddogion mewn rolau blaen y gad yn cynyddu rhwng Mawrth 2010 a Mawrth 2015 (o 88% i 94%). Mae hyn yn golygu y bydd gan Heddlu Dyfed-Powys gyfran uwch o swyddogion yr heddlu ar flaen y gad na heddluoedd eraill.
- Mae gan Heddlu Dyfed-Powys y cyfraddau troseddau isaf o unrhyw heddlu yng Nghymru a Lloegr. Mae hefyd yn parhau i wthio nifer troseddau i lawr, gan gofnodi lleihad o 2% rhwng 2010 a 2011.
- Roedd 86% o ddiodefwr yn Nyfed-Powys yn fodlon gyda'r gwasanaeth a ddarparodd yr heddlu. Mae hyn yn unol ag ystadegau cenedlaethol.

•
Meddai Arolygydd Cwnstabiliaeth EM ar gyfer y Rhanbarth Gorllewinol, Dru Sharpling:

"Mae gan Heddlu Dyfed-Powys hanes da iawn o leihau costau trwy reoli a datblygu ei heddlu yn ofalus ac roedd wedi nodi'r angen i leihau costau ymhell cyn cyhoeddi'r adolygiad gwariant. O ganlyniad, mae'r heddlu mewn sefyllfa dda i gyflawni ei darged arbedion erbyn 2015.

"Er y bydd yr heddlu yn lleihau ei weithlu, sy'n cynnwys torri rhai swyddi swyddogion yr heddlu, mae'n bwriadu diogelu blaen y gad trwy gynyddu'r gyfran o swyddogion yn y rolau brwydro troseddu hyn erbyn 2015. Dylai hyn osod yr heddlu mewn safle da i

gynnal ei gofnod arbennig o gadw cymunedau yn ddiogel a mwynhau'r lefelau troseddau isaf yng Nghymru a Lloegr."

Mae'r adroddiad llawn ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys, ynghyd â'r adolygiad thematig cenedlaethol 'Policing in austerity: One year on', ar gael yn www.hmic.gov.uk

Nodiadau i olygyddion

1. Mae'r adroddiad thematig llawn 'Policing in austerity: One year on' a deunydd ategol ar gael yn www.hmic.gov.uk
2. Gellir dod o hyd i'r adolygiad 'Adapting to Austerity' a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2011 a'r adroddiadau heddluoedd cysylltiedig yn www.hmic.gov.uk
3. Yn Hydref 2010, cyhoeddodd y llywodraeth y byddai'r cyllid canolog a ddarperir i'r heddlu yn lleihau o 20% yn y pedair blynedd rhwng Mawrth 2011 a Mawrth 2015.
4. Mae'r ffigurau wedi eu talgrynnu (ffigurau ariannol i'r filiwn agosaf a ffigurau gweithlu i'r 10 agosaf) ac mae ffigurau ariannol mewn prisiau arian parod.
5. Am ragor o wybodaeth, neu i ofyn am gyfweiliad, gellir cysylltu â swyddfa'r wasg HMIC yn ystod oriau swyddfa o 8:30am – 5:30pm Dydd Llun i Ddydd Gwener ar 0203 513 0600.
6. Mae Arolygiaeth Cwnstabiliaeth EM (HMIC) yn arolygiaeth annibynnol, yn archwilio plismona er lles y cyhoedd, ac yn archwilio effeithlonrwydd heddluoedd ac awdurdodau i daclo troseddau a therfysgaeth, gwella cyfiawnder troseddol a hybu hyder. Mae HMIC yn archwilio a rheoleiddio'r 43 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr, ynghyd â chyrrff plismona pwysig eraill fel yr Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol, Gwasanaeth Heddlu gogledd Iwerddon a Heddlu Trafnidiaeth Prydain a HMRC.
7. Llinell swyddfa'r wasg tu allan i oriau swyddfa HMIC ar gyfer ymholiadau brys gan y wasg yw 07836 217 729.
8. Cyflawnodd Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) archwiliad o'r 43 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr yn ystod Gwanwyn 2011, i weld sut maent yn bwriadu bodloni'r her ariannol hon. Pan gyhoeddwyd y canlyniadau yng Ngorffennaf 2011 (chwiliwch am 'Valuing the Police' ar www.hmic.gov.uk), fe ymgwymerom i ddychwelyd flwyddyn yn ddiweddarach i adrodd ar gynnydd, ac i asesu a gafwyd unrhyw effaith ar y gwasanaeth a ddarparwyd i'r cyhoedd.